CAERDYDD

CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2020 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 23 JULY 2020, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir o bell ar Dydd Iau, 23 Gorffennaf 2020 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 17 Gorffennaf 2020

# RECORDIO CYFARFOD

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei recordio â'r bwriad o'i ddarlledu ar wefan y Cyngor yn ddiweddarach. Bydd y cyfarfod cyfan yn cael ei recordio, ac eithrio pan fo eitemau cyfrinachol neu eitemau a eithrir. Caiff copi o'r cyfarfod ei gadw yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Os ydych yn gwneud sylw yn y cyfarfod hwn, ystyrir eich bod wedi cydsynio i gael eich ffilmio a/neu eich recordio.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau trwy ffonio 02920 872020 neu e-bostio Gwasanethau Democrataidd

| *Eitem* | | *Tua Amser* | *Max Amser* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | 5 mins |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i’w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau)* | 4.35 pm | 5 mins |
| **3** | **Cofnodion** *(Tudalennau 7 - 10)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2020 fel gwir gofnod.* | 4.40 pm | 5 mins |
| **4** | **Cyhoeddiadau’r Arglwydd Faer**<br><br>*Clywed cyhoeddiadau’r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 4.45 pm | 5 mins |
| **5** | **Atodlen Talu Aelodau 2020 - 2021** *(Tudalennau 11 - 34)*<br><br>*Adroddiad y Prif Weithredwr* | 4.50 pm | 10 mins |
| **6** | **Trefniadau Craffu yn ystod Cyfnod Ailddechrau wedi COVID-19** *(Tudalennau 35 - 38)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a’r Swyddog Monitro* | 5.00 pm | 10 mins |
| **7** | **Datganiad yr Arweinydd** *(Tudalennau 39 - 54)*<br><br>*Derbyn datganiad ar y cyd gan yr Arweinydd a'r Cabinet a chymryd uchafswm o 20 cwestiwn.* | 5.10 pm | 50 mins |
| **8** | **Hysbysiad o Gynnig 1**<br><br>*Cynigiwyd gan y Cynghorydd Adrian Robson*<br><br>*Eiliwyd gan y Cynghorydd Shaun Jenkins*<br><br>*“Mae’r Cyngor hwn yn nodi’r arolygiad ym mis Gorffennaf 2020 o’r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.*<br><br>*Mae’r Cyngor hwn hefyd yn nodi bod Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Caerdydd yn rhan o bortffolio’r Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd.*<br><br>*Nid oes gan y Cyngor hwn hyder yn y Cabinet.* | 6.00 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **9** | **Hysbysiad o Gynnig 2**<br><br>*Cynigiwyd gan: Y Cyng. Saeed Ebrahim*<br><br>*Eiliwyd gan: Y Cyng. Jen Burke-Davies*<br><br>*Mae'r Cyngor hwn yn nodi:*<br><br>*Bod Syr Thomas Picton yn cael ei ddathlu ar ffurf cerflun yn y Neuadd Farmor fel rhan o gasgliad Arwyr Cymru.*<br>*Bod y digwyddiadau wedi dwyn sylw ehangach at ymddygiad Picton a'i rôl yn y fasnach mewn caethweision dros yr Iwerydd - gan gynnwys yr enw oedd ganddo o fod yn ddyn penodol greulon, a'i euogfarn am arteithio merch 14 oed yn anghyfreithlon.*<br>*Yn y bleidlais gyhoeddus yn 1913, ni phleidleisiodd y cyhoedd i Syr Thomas Picton gael ei gynnwys ymysg y cerfluniau yn Neuadd y Ddinas Caerdydd.*<br><br>*Bod Caerdydd yn ddinas amrywiol a chroesawgar*<br><br>*Mae'r Cyngor hwn yn credu:*<br><br>*Bod ymddygiad Picton fel Llywodraethwr Trinidad yn atgas, hyd yn oed yn ei oes ei hun, ac nad yw'n haeddu lle yng nghasgliad Arwyr Cymru.*<br><br>*Bod angen i'r broses o greu mwy o ymwybyddiaeth am hanes caethwasiaeth gynnwys ailasesiad o'r parch rydym yn ei ddangos tuag at Picton, a llawer o bobl eraill a oedd yn cymryd rhan mewn caethwasiaeth ac a oedd yn elwa ohoni.*<br><br>*Yr oedd, gan edrych yn ôl, yn gamgymeriad cynnwys Picton fel dewis yn y bleidlais gyhoeddus yn 1916, ac yn gamgymeriad nad oedd wedi'i dynnu'n gynharach.*<br><br>*Y bydd y penderfyniad democrataidd, gan gynrychiolwyr pobl Caerdydd, i symud y cerflun yn anfon neges at bobl Ddu yng Nghaerdydd a ledled y byd bod y ddinas yn cydnabod y rôl yr oedd pobl fel Picton yn ei chwarae yn y fasnach mewn caethweision a bod rhaid i ni fynd i'r afael â'r hiliaeth systematig sy'n dal i fodoli oherwydd caethwasiaeth ac Ymerodraeth.*<br><br>*Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:*<br><br>• *Tynnu cerflun Syr Thomas Picton o'r Neuadd Farmor ac ystyried ei roi'n rhywle arall gydag esboniad clir o'i weithredoedd.*<br>• *Croesawu cyflwyno Tasglu gan yr Arweinydd i fynd* | 6.30 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *i'r afael â'r anghydraddoldeb y mae pobl BAME yn ei wynebu a chynnwys cynrychiolaeth gan gymunedau Du Caerdydd.*<br>• *Gweithredu argymhellion y Tasglu*<br>• *Bod bywydau Du o bwys, ac na fydd unrhyw un ohonom ni'n gyfartal nes y bydd pob un ohonom ni'n gyfartal.* | | |
| **10** | **Materion Brys** | 7.00 pm | |
| **Materion Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **11** | **Aelodaeth Pwyllgorau** *(Tudalennau 55 - 56)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a'r Gyfraith a'r Swyddog Monitro* | 7.00 pm | 5 mins |
| **12** | **Penodi Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol** *(Tudalennau 57 - 60)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwywddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | 7.05 pm | 5 mins |
| **13** | **Cofrestr o Benderfyniadau Swyddogion - SMT/19 20/84 - RHIF 39**<br><br>*Gwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd - Cymorth Ariannol COVID-19* | 7.10 pm | 5 mins |
| **14** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |